

# Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Llawn i ddilyn y Cyfarfod Blynyddol Nos Iau 16eg o Orffennaf 2020

## Agenda

1. Presennol:
2. Ymddiheuriadau:
3. Broses cyfethol i ward Glasinfryn yn sgil ymddiswyddiad Cyng Cynrig E Hughes
4. Derbyn cofnodion 12fed o Fawrth 2020
5. Materion yn codi o'r cofnodion
6. Derbyn Polisi Amgylcheddol 2019-20
7. Cymeradwyo Cod ymddygiad
8. Materion y Clerc Adrodd yn ol datblygiadau Mawrth i Gorffennaf (dros gyfnod y lockdown)
9. Materion y Cynghorwyr

# Cyngor Cymuned Pentir

## Cofnodion Cyngor llawn gynhaliwyd Nos Iau 12<sup>fed</sup> o Fawrth 2020 Yng Nganolfan Gymunedol Glasinfryn am 7.00pm

### Presennol:

Y Cyng. D Jones-Morris, D W Jones, Eleri Jones, B Jones, M Baines, a J Pierce  
Elwyn Jones (Clerc)

### Ymddiheuriadau:

Y Cyng, J. Griffiths, M Lynch, H Griffiths L. A. James a T Anwyl-Williams

### Ethol Cadeirydd i'r cyfarfod

Etholwyd Cyng M Baines i gadeirio y cyfarfod heno  
Traddodwyd y weddi hefyd gan Cyng D W Jones

### Côd Ymddygiad

Atgoffwyd pawb o'n côd ymddygiad a'r angen i ddatgan buddiant ar y ffurflen briodol os oedd angen.

### Derbyn cofnodion 13eg o Chwefror 2020

Derbynwyd y cofnodion fel rhai cywir ar gynnig Cyng B Jones ag eilwyd gan y Cyng E Jones

### Materion yn codi o'r cofnodion

Wal Coed y Maes Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau y bydda nhw yn gosod ffens ar y bwllch.  
Mynegwyd pryder ynglyn a'r ffaith er i ni ymdrechu yn galed i gael adferiad o'r wal fod y trigolion wedi cytuno hefo swyddogion Gwynedd ynglyn a'r math o ffens fydd yn cael ei gosod.  
Mater felly rhwng y trigolion a Gwynedd yn unig fydd datrys unrhyw broblem fydd yn deillio ar ol cael y ffens yn ei lle.

### **Adroddiad Ariannol 26ain o Chwefror**

Taliad TAW oedd ddim yn ddyledus i ni bellach i gyd wedi ei dalu yn ol i HMRC

- Ceisiadau Nawdd

Gafwyd 3 cais i'w ystyried Argymhellwyd cefnogi y 3 drwy gyfranu £300.00 yr un iddynt

#### **Cymeradwywyd yr argymhelliad**

Trafodwyd fod cyfarfod lleol i godi arian at Eisteddfod Boduan 2021 wedi ceisio sefydlu Grwp ar y cyd rhwng Ardal Dinas Bangor a Ardal Cyngor Cym. Pentir a'i alw yn Apel Dinas Bangor a'r Cylch.

Tra mewn egwyddor 'roedd cefnogaeth ond bod yn bwysig fod y gair Pentir yn ymddangos yn y teitl yn hytrach na Cylch.

Tra'n sylweddoli fod yr amser yn brin iawn cyn diwedd blwyddyn ariannol 2019-20 Cyng M Baines am adrodd hyn yn ol i'r grwp a cheisio cael y grwp i wneud cais am gefnogaeth.

Byddai'r Cyngor yn ystyried ceisiadau gan y grwp lleol

- Rhanwyd y fantolen ariannol yn dangos £28,000.86 yn y cyfrif cyfredol a £15,014.84 yn y cyfrif cadw
- Nodwyd fod bron i £5K yn llai yn y cyfredol mewn gwirionedd gan nad oedd sicciau wedi eu cyflwyno.

Tra bod gan y Cyngor Gynllun iaith yn hytrach na Polisi iaith gofynwyd i'r Clerc holi Unllais ynglyn a pa un oedd disgwyl i Gynghorau Cymuned ei gael.

Traeliodd yr IBC rhywfaint o amser yn cael eu arwain gan y Cyng L A James drwy y Gofrestr Asesu Risg.  
Cytunwyd fod angen neilltuo amser yn IBC Mawrth i adolygu a diweddarau ein gweithdrefnau

Ceisiadau Cynllunio

Dim wedi dod i lawr

Canolfan Penrhosgarnedd

Cyngor Gwynedd wedi bod yn holi am gyswllt i bwyllgor y Ganolfan ynglyn a threfnu a sicrhau diogelwch wrth i brosiect Ysgol y Faenol ddatblygu.

Cyng M Baines fel y Cadeirydd a byddai hi yn gallu cysylltu a'r gofalmwr a /neu y Trysorydd

Ysgol y Faenol

Dim i'w ychwanegu

#### Materion y Clerc

- Adroddiad
  - Hysbysfyrdd Ysb Gwynedd Dal heb ei osod

Materion y Cynghorwyr

Cyng D Jones-Morris Datblygiadau Ffordd Penrhos Holwyd beth oedd yn digwydd ynglyn a'r ffordd brysur yma gan ei fod yn bryderus bellach fod Cyngor Gwynedd yn llusgo eu tread hefo sawl prosiect mae nhw ynglwm ag o. E.e. Croesfannau ar y ffordd – Twll yn y Wal i enwi ond dau

Cyng M Baines wedi bod mewn trafodaethau ag am ofyn os oes bosib cael cyfarfod Safle hefo Swyddogion Gwynedd Cyng D Jones-Morris yn mwy na hapus i ddod i gyfarfod i'w chefnogi

#### **Cyng M Baines am drefnu**

Cyng J Griffiths Cyflwr Lon Glasinfryn o'i gymharu a llwybrau beics Yn ei absenoldeb adroddodd y Clerc iddo dderbyn e-bost gan y Cyng J Griffiths yn holi sut fod Cyngor Gwynedd yn gwario cymaint ar lwybrau beics a chyflwr Lon Glasinfryn mor drychinebus o sal.

Adroddwyd tra mae Cyngor Gwynedd oedd yn cario'r gwaith o adeiladu'r llwybrau beic mae arian Ewrop mewn gwirionedd oedd yn talu ag na ellir gwario'r arian ar unrhyw beth arall ond y llwybrau beics.

#### **Clerc i holi eto am Lon Glasinfryn**

Cyng M Baines Cais i ystyried cyfuno ardal Pentir a Dinas Bangor ar gyfer codi arian i Eisteddfod Boduan 2021 Gweler nodyn ar hyn o dan Is-bwyllgor Cyllid

Cais cynllunio Coed Wern (y cabanau pren) – C18/0767/25/LL

Diweddarodd Cyng M Baines nad oedd y cais yma wedi bod gerbron pwyllgor Cynllunio oherwydd fod lleihad bellach yn y nifer o gabanau oedd bwriad eu codi yno.

**Mae'r datblygiad yn ardal Cyngor Cymuned Llandygai ag oherwydd hynny yn anhebygol o'n gwahodd fel Cyngor i fynegu barn er cymaint byddai ei ddylanwad ar drigolion Cyngor Cymuned Pentir**

#### **NODER**

***Yn sgil rhagolygon argyfwng Coronavirus a'r posibilrwydd na fyddai posib cynnal cyfarfodydd cyhoeddus cynnigiodd y Cyng D W Jones fod y Cyngor yn caniatu i'r Clerc ymdrin a taliadau a materion y Cyngor fel bo'r galw.***

***Cafodd y cynnig ei eilio gan y Cyng D Jones Morris.***

***Derbynwyd y cynnig yn unfrydol***

Clerc i gadw mewn cyswllt yn electronig i ddiweddarau'r aelodau

Daeth y cyfarfod i ben am 8.50